



**Gwasanaeth Cymorth i Blant
a Phobl Ifanc b/Byddar**
Gwasanaethau Cymorth Cyfathrebu a Synhwyraidd

Y Ganolfan Ddinesig
Heol Glantorfaen
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB
Ffôn: 01633 648888
E-bost: sencom@torfaen.gov.uk

**Support Service for d/Deaf
Children & Young People**
Sensory & Communication Support Service

Civic Centre
Glantorfaen Road
Pontypool
Torfaen
NP4 6YB
Telephone: 01633 648888
Email: sencom@torfaen.gov.uk

Ymarferion gwrando i ddisgyblion eu gwneud gartref

Mae gwrando yn sgil sy'n datblygu gydag amser, ac yn ôl yr ymchwil mae gwrando fel sgil yn parhau i ddatblygu hyd nes cyrraedd tua 15 oed ymhlith y boblogaeth sy'n clywed yn arferol. Os yw plant yn profi colli clyw, gall hyn effeithio ar ddatblygiad eu sgiliau gwrando a hyd yn oed pan fydd y clyw yn dychwelyd at y lefelau arferol eto, efallai y bydd angen rhywfaint o ymarfer ychwanegol arnynt ar gyfer gwrando. Mae gwrando yn sgil y gellir ei helpu i ddatblygu, ychydig fel gweithio'r cyhyrau, ac mae'n cryfhau wrth ei ddefnyddio. Mae'r Gwasanaeth Cymorth i Blant a Phobl Ifanc b/Byddar wedi llunio'r rhestr hon o weithgareddau i roi syniadau i rieni a phlant am sut y gallant wella'u sgiliau gwrando gartref.

Cerddoriaeth

Gwrandewch ar gerddoriaeth heb eiriau yn gyntaf. Beth allwch chi ei glywed? Chwiliwch am amrywiaeth o offerynnau ar y rhyngwrwd y gellir eu chwarae'n unigol a gwrandewch arnynt. Allwch chi eu clywed mewn darn o gerddoriaeth?

Gwrandewch ar gân gyfarwydd. Allwch chi glywed y geiriau? Nawr, gwrandewch ar gân anghyfarwydd. Ceisiwch glywed beth yw'r geiriau, rhwch dro arni am y ddwy linell gyntaf, ac yna adeiladu i fyny. Anelwch at wybod beth yw'r gytgan, gair am air. Profwch eich hun trwy gael rhywun arall i roi tro arni a chymharu eich dyfaliadau. Mae yna apiau ar gael hefyd, fel Shazam. Efallai y byddwch chi'n gweld bod yn well gennych leisiau gwrywaidd na benywaidd, neu i'r gwrthwyneb.

Chwiliwch am y cliwiau yn gyntaf

Gofynnwch i bobl ddweud wrthyh yn gyntaf beth rydych chi'n mynd i siarad amdano. Neu, os ydych chi wedi colli llinyn y sgwrs, gofynnwch iddynt beth maen nhw'n cyfeirio ato. Er enghraifft, rydyn ni'n siarad am y rhaglen ... oedd ar y teledu neithiwr. Yna ceisiwch godi edefyn y sgwrs eto.

Defnyddio'r ffôn

Siaradwch ar y ffôn, yn hytrach na defnyddio Snapchat neu Facetime. Mae hyn yn ymarfer y cyhyrau gwrando. Dechreuwch gyda phobl rydych chi'n gyfarwydd iawn â nhw, fel eich rhiant yn gyntaf. Yna adeiladu'r banc o bobl i siarad â nhw. Dechreuwch gyda sgwrs fer, yna adeiladu i un hirach.

Diffoddwch yr isdeitlau

THIS DOCUMENT IS AVAILABLE IN LARGER PRINT AND BRAILLE UPON REQUEST

We welcome correspondence in Welsh and English.
Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and will not lead to delay.
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.
Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd yn arwain at oedi.

www.torfaen.gov.uk

For information on how we handle your personal data please refer to our Privacy Notice at Torfaen.gov.uk
I gael gwybodaeth am sut rydym yn trin eich data personol, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd ar Torfaen.gov.uk

Os ydych chi'n defnyddio is-deitlau ar y teledu, ar YouTube ac yn y blaen, ceisiwch wrando bob nawr ac yn y man heb yr is-deitlau. Adeiladwch yr amser rydych chi'n ei dreulio yn dilyn y sgwrs heb isdeitlau.

Galw i fyny'r grisiau

Allwch chi glywed rhywun yn galw i fyny'r grisiau? Os felly, gofynnwch iddyn nhw a allwch chi ailadrodd beth maen nhw wedi'i ddweud. Gofynnwch iddyn nhw roi un cyfarwyddyd i chi, ac os allwch chi wneud hynny gofynnwch am ddau ac adeiladwch nes y gallwch glywed sawl peth.

Neu curwch ar y drws

Neu, gofynnwch iddyn nhw siarad â chi drwy'r drws. Ailadroddwch yr hyn rydych chi'n credu maen nhw wedi'i ddweud. Os ydych chi'n iawn, maen nhw'n agor y drws. Os ydych chi wedi colli rhywbeth, gofynnwch iddyn nhw ei ailadrodd.

Dyfalwch y sŵn/synau/brawddegau/geiriau

Gofynnwch i'ch rhiant neu frawd neu chwaer neu ffrind wneud sŵn mewn ystafell arall. Ceisiwch weld a allwch chi ddyfalu pa sŵn ydyw. Mae'r awgrymiadau yn cynnwys pethau fel cân amserydd y ffwrn, dŵr yn rhedeg, cnocio ar y drws. Ceisiwch eu cael i roi brawddeg i chi, am bwnc maen nhw'n ei ddweud wrthyh chi yn gyntaf, yna heb y ciw hwn. Adeiladwch ystod y brawddegau. Yna ewch am air. Mae hyn yn anoddach na gwrandao ar frawddegau. Dechreuwch gyda geiriau sydd wedi'u hysgrifennu i lawr ar ddalen o bapur **e.e. ysgrifennu rhestr o 10 gair i lawr ac yna eu dweud un ar y tro i weld a allwch eu hadnabod yn gywir. Nesaf, ceisiwch wrando** ar y geiriau heb y ddalen o bapur. Yna ewch am eiriau sy'n odli. Beth yw'r gair? Chwaraewch gerddoriaeth o raglenni teledu. Allwch chi ddyfalu'r sioe? Fwy na thebyg y bydd angen i chi eu dewis yn gyntaf i wrando arnynt, cyn gofyn i rywun roi prawf i chi.

Mae yna lawer o bethau allwch chi roi tro arnynt, a'r peth pwysicaf yw cael hwyl wrth wneud hyn a cheisio ymlacio wrth wrando. Peidiwch â rhuthro. Rydych chi'n ymarfer eich cyhyrau gwrandao ac mae hyn yn cymryd amser. Os oes angen unrhyw gyngor pellach arnoch, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cymorth i Blant a Phobl Ifanc b/Byddar

THIS DOCUMENT IS AVAILABLE IN LARGER PRINT AND BRAILLE UPON REQUEST

We welcome correspondence in Welsh and English.
Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and will not lead to delay.
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.
Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd yn arwain at oedi.

www.torfaen.gov.uk

For information on how we handle your personal data please refer to our Privacy Notice at Torfaen.gov.uk
I gael gwybodaeth am sut rydym yn trin eich data personol, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd ar Torfaen.gov.uk